

Pecyn Swydd

# CYFARWYDDWR CYSYLLTIOL

Cyflog cychwynnol £34,000 y flwyddyn (pro rata)
Rhan-amser (wedi'i gyfrifo ar sail flynyddol)
Cytundeb cyfnod penodol o 3 blynedd, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 06 MEDI 2026 (canol nos)

Hijinx

# CROESO

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn Hijinx ac yn ein swydd Cyfarwyddwr Cysylltiol. Rydym yn wirioneddol falch eich bod chi yma.


Mae'r pecyn hwn yn rhoi ychydig mwy o gefndir i pwy ydyn ni, y swydd ei hun, a sut i ymgeisio.

Yn Hijinx, rydym yn cael ein gyrru gan y gred y gall theatr fod yn rym grymus dros newid, cysylltu a chydweithio. Ers dros 25 mlynedd, rydym wedi creu gwaith uchelgeisiol, llawn llawenydd sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol gydag artistiaid ag anabledd dysgu ac awtistig, ochr yn ochr â chymunedau a chydweithwyr ar draws Cymru a thu hwnt.

Rydym yn falch o'r diwylliant yr ydym wedi ei lunio: un sy'n greadigol, cefnogol, chwilfrydig ac wedi ei wreiddio mewn ymddiriedaeth. Credwn bod y syniadau gorau yn dod pan fydd pobl yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn, herio ei gilydd a dwyn eu profiadau a'u safbwyntiau eu hunain at y bwrdd. Rydym wedi cyffroi ein bod yn gallu croesawu rhywun a all helpu i siapio cyfeiriad Hijinx yn y dyfodol a pharhau i fod yn lladmeryddion i'r artistiaid, cymunedau a phartneriaethau sy'n ganolog i'n gwaith.

Os hoffech chi sgwrsio am unrhyw beth cyn ymgeisio, neu os oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud i'ch cefnogi chi neu wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch, cysylltwch trwy jobs@hijinx.org.uk

Diolch eto am roi amser i ystyried y cyfle hwn. Rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at ddysgu mwy amdanoch chi, eich profiad a'r cyfraniad y gallech ei wneud fel rhan o bennod nesaf Hijinx.



BEN PETTITT-WADE
Cyd-Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Artistig



EIN GWELEDIGAETH
Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn gwbl gynhwysol i bobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

EIN CENHADAETH
Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

AM HIJINX
Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym raglen ffilm sy'n tyfu ac arlwy cymunedol ac allgymorth deinamig (PAWB). Trwy Actorion Hijinx, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r celfyddydau a diwydiannau creadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein hyfforddiant cyfathrebu arobryn.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

## RYDYM YN CREU NEWID TRWY FYW AC ANADLU EIN NODAU SEFYDLIADOL...




Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin.



Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.



Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.





Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.

Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru.



"Mae pobl ag anableddau yno i ddangos i bobl ein bod ni'n ddynol ac rydyn ni eisiau iddyn nhw gael eu diddanu gan yr hyn rydyn ni'n ei wneud."

# DISGRIFIAD SWYDD.
# CYFARWYDDWR CYSYLLTIOL






Mae'r **Cyfarwyddwr Cysylltiol** yn chwarae rhan allweddol wrth roi bywyd i weledigaeth greadigol Hijinx, gan arwain datblygiad artistig a chyflawni prosiectau ar draws ein rhaglen Ymgysylltiad Creadigol a'n rhaglen greadigol ehangach. Gan weithio'n glos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig/Cyd-brif Swyddog Gweithredol, y Cynhyrchydd Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid, bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn helpu i siapio profiadau creadigol uchelgeisiol, cynhwysol ac o safon uchel gydag ac ar gyfer ein cymunedau a chynulleidfaoedd.

**Swydd ar sail prosiect yw hon**, gan roi arweiniad creadigol o'r cyfnod cynllunio cynnar hyd at gyflawni. Bydd y Cyfarwyddwr Cysylltiol yn gyfrifol am **feithrin y broses greadigol**, creu'r amodau er mwyn i artistiaid llawrydd a chydweithwyr deimlo eu bod wedi eu croesawu, eu cefnogi a'u grymuso i wneud eu gwaith gorau.

Mae cydweithio yn ganolog i'r swydd hon. Gan weithio fel rhan o dîm cynhyrchu Hijinx, bydd y Cyfarwyddwr Cysylltiol yn llunio cysylltiadau cryf gydag artistiaid, cyfranogwyr, cydweithwyr a phartneriaid, gan sicrhau bod **ein gwerthoedd o gynhwysiant, creadigrwydd a rhagoriaeth** wedi ymwreiddio ar bob cam o'r broses.

Tra bydd y swydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ein rhaglen **Ymgysylltu Creadigol**, bydd cyfleoedd hefyd i gyfrannu at raglen artistig ehangach Hijinx, gan gynnwys ein gwaith cynhyrchu, Gŵyl Undod a'r rhaglen Datblygu Artistiaid.

Diverse Cymru Black, Asian and Minority Ethnic Cultural Competence

attitude is everything

itc 2025-2026 Fair Work Approved

ZERO RACISM WALES

disability confident EMPLOYER



# CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL.

**Ymgysylltu Creadigol**

- Arwain ar gyflawni creadigol rhaglen Ymgysylltu Creadigol Hijinx, gan gynnwys cyfarwyddo, cyd-greu a hwyluso gweithgareddau cyfranogol gyda chymunedau ar draws Cymru.
- Gweithredu fel Arweinydd Creadigol ar gwmni cymunedol parhaus Hijinx, Theatr Odyssey, gan gefnogi datblygiad artistig y grŵp a chyflawni cynhyrchiad blynyddol yn ystod cyfnod y contract.
- Mynychu sesiynau min nos Lun wythnosol gyda Theatr Odyssey, gan gefnogi datblygiad a chreu eu cynhyrchiad blynyddol.
- Rhoi goruchwyliaeth greadigol dros brosiectau Ymgysylltu Creadigol Hijinx, gan sicrhau profiadau artistig o safon uchel i gyfranogwyr, artistiaid a chynulleidfaoedd.
- Gweithio'n glos gyda'r Cynhyrchydd a'r Cyfarwyddwr Artistig i ddatblygu cyfleoedd newydd mewn Ymgysylltu Creadigol, gan gryfhau'r berthynas gyda chymunedau, partneriaid a rhwydweithiau ar draws Cymru.
- Cefnogi gwerthuso gweithgaredd Ymgysylltu Creadigol, gan gasglu'r gwersi a ddysgwyd ac ymwreiddio hyn yn y datblygiad a chyflawniad creadigol yn y dyfodol.
- Gweithio gyda'r Cynhyrchydd i gefnogi recriwtio ac ymgysylltu ar gyfer prosiectau Ymgysylltu Creadigol, gan lunio cysylltiadau gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, sefydliadau anabledd dysgu, rhwydweithiau cymunedol a sefydliadau partner i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gymryd rhan.
- Arwain yr elfennau ymgysylltu creadigol sy'n gysylltiedig â gweithgaredd teithio Hijinx, gan sicrhau cyfleoedd ystyrlon i gyfranogwyr a chymunedau. E.e. gweithdai, sgyrsiau.

**Cyfarwyddo Ychwanegol**

- Hwyluso lleiafswm o un wythnos o ymchwil a datblygu y flwyddyn gydag Ensemble Hijinx, gan gyfrannu at ddatblygu gwaith teithio yn y dyfodol.
- Datblygu a chyfarwyddo o leiaf un cynhyrchiad theatr stryd newydd yn ystod cyfnod y contract, gan gynnwys cyflawni lleiafswm o ddeg sesiwn greadigol gydag artistiaid Academi.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig a'r timau creadigol ehangach trwy ymarferion a chyfnodau datblygu, gan gynnwys hwyluso cyfnodau cynhesu, rhoi nodiadau a chyfrannu at brosesau creadigol cydweithredol.
- Gweithredu fel cyfarwyddwr ymarferion ar daith yn ôl y gofyn.

**Gŵyl Undod Hijinx**

- Gweithio'n glos gyda thîm creadigol Gŵyl Undod i gydlynu a chyflawni cyfraniadau gan brosiectau Ymgysylltu Creadigol Hijinx fel rhan o raglen yr ŵyl bob dwy flynedd.
- Sicrhau bod gwybodaeth greadigol, hygyrchedd, marchnata, technegol a chynhyrchu ymarferol yn cael ei rhannu yn effeithiol ac yn brydlon gyda thîm ehangach yr ŵyl.
- Bod ar gael yn ystod cyfnod yr ŵyl i sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.



# CYFRIFOLDEBAU.

## Diogelu, Lles a Llesiant

- Bod yn gyfrifol am ddiogelu, lles a llesiant cyfranogwyr ac actorion a rhoi adroddiad am unrhyw absenoldebau, problemau arwyddocaol neu bryderon i'r Cynhyrchydd Gweithredol / Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid gan ddilyn ein gweithdrefn ddiogelu.
- Cadw eich gwybodaeth yn gyfredol am bolisïau a gweithdrefnau Hijinx a sicrhau bod cydymffurfio â nhw, yn neilltuol y rhai yn ymwneud â diogelwch, llesiant a diogelu cyfranogwyr a gweithwyr llawrydd.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid, y Cynhyrchydd Gweithredol ac adrannau eraill i sicrhau bod ymarfer gorau yn cael ei weithredu ar draws prosiectau.

## Arweinyddiaeth a Chydweithio

- Gweithio fel rhan o dîm cynhyrchu Hijinx i gefnogi cyflawni llwyddiannus ar brosiectau Ymgysylltu Creadigol, gan sicrhau eu bod yn bodloni nodau profiad artistig, sefydliadol a chyfranogwyr.
- Cefnogi recriwtio, contractio a rheoli artistiaid llawrydd a thimau creadigol yn gweithio ar draws y gweithgaredd Ymgysylltu Creadigol.
- Llunio a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gydag artistiaid, cyfranogwyr, partneriaid, cyllidwyr a rhanddeiliaid, gan gynrychioli Hijinx yn genedlaethol a rhyngwladol pan fydd yn briodol.
- Gweithio'n glos gyda'r Cynhyrchydd, Cyfarwyddwr Artistig a'r Cynhyrchydd Gweithredol i ddynodi, datblygu a chyflawni prosiectau artistig, partneriaethau a chyweithiau newydd.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid i greu llwybrau rhwng gweithgaredd cyfranogol a rhaglen ddatblygu artistiaid ehangach Hijinx, gan gefnogi'r cyfleoedd i symud ymlaen i artistiaid sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.
- Gweithredu fel dirprwy i'r Cyfarwyddwr Artistig yng nghyswllt cyfrifoldebau artistig yn ôl y gofyn.
- Gweithio'n glos gyda'r Rheolwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfa i gefnogi hyrwyddo a chyfathrebu gweithgareddau creadigol, gan sicrhau bod prosiectau yn cael eu gosod, rhannu a'u dathlu yn effeithiol gyda chynulleidfaoedd, partneriaid a rhanddeiliaid. Cyfrannu at lunio ymwybyddiaeth ehangach a dealltwriaeth o raglen greadigol Hijinx, ei artistiaid ac effaith ein gwaith.

## Cyllid a Chodi Arian

- Gweithio gyda'r Cynhyrchydd a'r Cynhyrchydd Gweithredol i ddatblygu cyllidebau prosiectau, rheoli adnoddau'n effeithiol a chefnogi cyflawni gwaith o safon uchel o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt.
- Dynodi cyfleoedd codi arian yn gysylltiedig â'r gweithgaredd Ymgysylltu Creadigol a gweithio gyda'r Rheolwr Codi Arian i gefnogi ceisiadau, rhoi adroddiadau a gweithgaredd codi arian sefydliadol ehangach pan fydd yn briodol.

## Cyfrifoldebau Cyffredinol

- Cyfrannu at ddiwylliant cydweithredol Hijinx, cefnogi cydweithwyr ar draws y sefydliad a helpu i sicrhau bod gwaith y cwmni'n cael ei gyflawni'n llyfn.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant, datblygu proffesiynol a gweithgaredd sefydliadol yn ôl y gofyn.

# Manyleb Person

Yn Hijinx, rydym wedi ymrwymo i lunio tîm cryf ac amrywiol, felly os ydych yn meddwl bod gennych yr hyn sydd ei angen, ond nad ydych o angenrheidrwydd yn bodloni pob pwynt unigol yn y disgrifiad swydd, os gwelwch yn dda ymgeisiwch er hynny a dweud pam wrthym.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Gallu** | | |
| Sgiliau cyfarwyddo cryf, gyda hanes o waith uchelgeisiol, llawn effaith ar gyfer amrywiaeth o raddfeydd, cyd-destunau a chynulleidfaoedd, gan gynnwys lleoliadau traddodiadol ac amgylcheddau awyr agored/stryd neu benodol i safle. | X | |
| Y gallu i arwain a chymell timau creadigol, gan feithrin amgylchedd gwaith cydweithredol, cynhwysol a chefnogol. | X | |
| Yn fedrus o ran cyd-greu a dyfeisio prosesau, gyda neu heb awdur, ac yn gallu hwyluso dulliau chwareus a llawn dychymyg o wneud gwaith. | X | |
| Sgiliau cyfathrebu, rheoli rhanddeiliaid a llunio perthnasoedd cryf, gyda'r gallu i gydweithio'n effeithiol gydag artistiaid, partneriaid, cyllidwyr a chymunedau. | X | |
| Y gallu i asesu, rheoli a derbyn risg greadigol, gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau i ymdrin â heriau a chyfleoedd. | X | |
| Dealltwriaeth o reolaeth ariannol a'r gallu i weithio o fewn cyllidebau cytunedig, cefnogi cynllunio adnoddau a chyfrannu at gyflawni prosiect yn effeithiol. | X | |
| **Profiad** | | |
| Profiad y gellir ei ddangos fel ymarferwr theatr a chyfarwyddwr, gan arwain datblygiad creadigol cynyrchiadau o'r syniad cyntaf hyd at eu cyflwyno. | X | |
| Profiad o greu gwaith gyda, ac ar gyfer, cymunedau amrywiol. | X | |
| Profiad o ymarfer celfyddydau cynhwysol. | X | |
| Profiad o ddatblygu partneriaethau creadigol, cyd-gynyrchiadau a pherthnasoedd cydweithredol. | | X |
| Profiad o weithio'n rhyngwladol a datblygu perthnasoedd artistig rhyngwladol. | | X |
| Profiad o weithio ar draws cyd-destunau cyfranogol a phroffesiynol. | | X |
| Profiad bywyd fel artist anabl. | | X |

# Manyleb Person (Yn parhau)

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | | |
| Dealltwriaeth gref o ymarfer cynhwysol ac ymrwymiad i ymwreiddio hygyrchedd a chynhwysiant mewn prosesau creadigol. | X | |
| Gwybodaeth am arferion diogelu, neu barodrwydd i ddilyn hyfforddiant perthnasol. | X | |
| Dealltwriaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ac ymrwymiad i ymarfer creadigol cynaliadwy. | X | |
| Dealltwriaeth, neu barodrwydd i ddysgu am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | X | |
| Rhwydwaith sefydledig o gysylltiadau llawrydd yn sector theatr Cymru, gyda'r gallu i feithrin a datblygu timau artistig cyffrous. | | X |
| Gwybodaeth am dirwedd gelfyddydol Cymru, gan gynnwys cyllid celfyddydol yng Nghymru. | | X |
| Gwybodaeth am y sector gelf i bobl ag anabledd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. | | X |
| **Agwedd** | | |
| Dull chwareus, chwilfrydig a chynhwysol mewn ymarfer creadigol, gydag angerdd am greu gwaith uchelgeisiol sy'n herio ac ysbrydoli cynulleidfaoedd. | X | |
| Ymrwymiad i werthoedd, diwylliant a chenhadaeth Hijinx. | X | |
| Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus fel artist ac arweinydd. | X | |
| Dull hyblyg a pharod i addasu, a gweithio ar fin nos a phenwythnosau yn achlysurol yn ôl gofynion y swydd. | X | |
| Ymrwymiad i lunio perthnasoedd cadarnhaol a gweithio yn gynhwysol gydag artistiaid, cyfranogwyr, cydweithwyr a phartneriaid. | X | |

# TELERAU.

- **Rheolwr Llinell:** Cyfarwyddwr Artistig/Cyd-brif Swyddog Gweithredol
- **Yn gyfrifol am:** Weithwyr llawrydd creadigol
- **Contract:** 3 mis tymor penodol, gyda photensial i gael estyniad (6 mis o brawf)
- **Oriau:** Rhan-amser, oriau blynyddol - cyfartaledd o 2 ddiwrnod yr wythnos (15 awr)
  - Cynigir y swydd hon ar sail oriau blynyddol, sy'n gyfanswm o 104 o ddyddiau gwaith y flwyddyn. Cytunir ar y patrwm dyddiau gwaith yn flynyddol, o ystyried rhaglen greadigol Hijinx, amserlen prosiectau ac argaeledd y Cyfarwyddwr Cysylltiol.
- **Yn gweithio o:** Caerdydd (gyda theithio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ôl gofynion y swydd)
- **Cyflog/Buddion:** Graddfa B, cyflog cychwynnol SCP10: £34,000 y flwyddyn (pro rata)
- Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.
- Yn ychwanegol, rydym yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n glos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni.
- **Gwyliau:** 30 diwrnod y flwyddyn a gwyliau banc statudol (pro rata)



**NODIADAU CYFFREDINOL**
Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

Mae tîm Hijinx yn fach, ond yn ystwyth, ac yn cyflawni'n uwch o lawer na'r disgwyl, gyda chymorth criw rhyfeddol o weithwyr ar eu liwt eu hunain a gwirfoddolwyr.

- Rydym yn datblygu ac annog ein gweithwyr i dyfu yn eu rolau a bod y gorau y gallant fod.
- Anelwn at ymagwedd gydweithredol at waith lle mae aelodau staff yn helpu a chefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y cwmni'n cael ei gynnal yn ddidrafferth a bod y gwaith yn cael ei gyflawni.
- Mae'r Pecyn Swydd hwn yn ddangosol yn hytrach na chynhwysfawr, a bydd angen agwedd hyblyg at rôl a thasgau'r swydd.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrir ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall fel sy'n briodol i'w rôl ar gais ei reolwr llinell.
- Diogelu - Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau sy'n dangos ei hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig.



# I WNEUD CAIS

Os ydych yn credu eich bod yn addas i'r rôl ac yr hoffech wneud cais, anfonwch y canlynol atom:

1. **CV cyfredol** – yn amlygu unrhyw brofiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol.
2. **Llythyr eglurhaol** heb fod yn hirach na dwy dudalen – yn nodi pam rydych chi'n ymddiddori yn y rôl a sut mae eich profiad yn cyd-fynd â manyleb y person.
3. **Ffurflen Monitro Amrywiaeth** wedi'i chwblhau yma – cadarnhewch yn eich llythyr eglurhaol eich bod wedi cwblhau'r ffurflen hon.

Rydym yn gwybod y gall gwneud cais am swyddi weithiau deimlo'n llethol – yn enwedig os nad yw'r prosesau safonol bob amser yn gweithio i chi.

Os nad ysgrifennu yw eich ffordd ddewisol o gyfathrebu, gallwch anfon ffeil fideo neu sain atom (hyd at 5 munud) yn lle llythyr eglurhaol ysgrifenedig.

Dylid anfon ceisiadau at jobs@hijinx.org.uk erbyn hanner nos ar 6 Medi 2026.

**AMSERLEN RECRIWTIO**
**06 Medi:** Ceisiadau yn cau am hanner nos
**w/c 07 Medi:** Ceisiadau yn cael eu sgrinio a'u gwneud yn ddienw
**w/c 14 Medi:** Llunio rhestr fer
**22 Medi:** Bydd pob ymgeisydd wedi cael penderfyniad
**02 Hyd:** Cyfweliadau
**05 Hyd:** Cyfweliadau'r Ail Rownd (os bydd angen)
07 **Hyd:** Penderfyniad a rhoi cynnig

Rydym yn gwybod bod amgylchiadau pawb yn wahanol, felly rydym yn hapus i weithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus i gytuno ar ddyddiad cychwyn sy'n addas, gan ystyried ymrwymiadau presennol ac argaeledd.

**HYGYRCHEDD A CHYNHWYSIANT**
Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigolion. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal a Hyderus am Anabledd, a denu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu Cynllun Cyfweliad Gwarantedig i ymgeiswyr nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt ar ein tîm. Gallwch gael eich ystyried dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig os ydych yn dioddef hiliaeth, yn Fyddar, anabl, yn berson ag anabledd dysgu, niwrowahanol, â chyflwr corfforol neu iechyd meddwl tymor hir, yn LHDTC+ neu yn uniaethu fel rhywun dosbarth gweithiol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi yn y fanyleb person, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad. Dim ond gyda thîm adnoddau dynol Hijinx a'r rheolwr sy'n recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad gwarantedig yn cael ei rannu. Os hoffech chi gael eich ystyried dan y cynllun, dynodwch hyn yn glir yn eich cais.

Pwysig: dan rai amgylchiadau recriwtio fel amseroedd prysur, efallai y bydd raid i ni gyfyngu'r nifer o gyfweliadau a gynigir. Bydd hyn yn cynnwys y nifer o gyfweliadau a gynigir trwy'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig. Yn y sefyllfa hon, bydd Hijinx yn sicrhau bod nifer deg a chymesur o ymgeiswyr o gymunedau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol (sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd hon) yn cael cynnig cyfweliad.